


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 254A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia gyda chymorth PricewaterhouseCoopers.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Er iddo gyflawni nifer o brosiectau allweddol yn llwyddiannus, daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod yn llai llwyddiannus o ran cyflawni gwelliannau wedi'u targedu mewn perthynas â chanlyniadau i ddinasyddion mewn meysydd blaenoriaeth, a chanfuwyd bod perfformiad ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio 7

Mae'r ffordd y mae'r cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ac yn ei werthuso yn gwella ond mae diffyg ystyriaeth benodol o flaenoriaethau'r Cyngor yn yr hunanwerthusiadau yn wendid ar hyn o bryd 17

Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella statudol ac mae'n chwilio am sicrwydd allanol bod ei drefniadau cynllunio ariannol ac ailddylunio gwasanaethau yn ddigon cadarn 21

Ni allwn eto ddod i gasgliad ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2014-15 27

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 28

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 29

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 30

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful 33

# Adroddiad cryno ac argymhellion

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru; mae hefyd yn defnyddio gwaith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau'r Cyngor i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas 2012-13, a'i waith cynllunio ar gyfer gwella yn 2013-14. Gan ystyried y rhain, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol o ran a yw'n credu y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Yn 2012-13, er iddo gyflawni nifer o brosiectau allweddol yn llwyddiannus, daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod yn llai llwyddiannus o ran cyflawni gwelliannau wedi'u targedu mewn perthynas â chanlyniadau i ddinasyddion mewn meysydd blaenoriaeth, a chanfuwyd bod perfformiad ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio:

- Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod yn llwyddiannus o ran cyflawni pump o'r wyth prosiect allweddol yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-13. O ran y canlyniadau blaenoriaethol tymor hwy ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, er y gwnaethpwyd gwelliannau, mae'r Cyngor wedi barnu bod y sefyllfa yn parhau i fod yn anfoddhaol o ran tri o'r pedwar canlyniad sy'n flaenoriaeth.
- Mae perfformiad y Cyngor o ran darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn parhau i fyd ymhell islaw lefelau derbyniol; mae'r broses o gyflwyno newidiadau'n parhau i fod yn araf ac, er bod trefniadau ar waith i sicrhau mwy o hunanwerthuso a chraffu, mae rhai rhwystrau i'w goresgyn o hyd.
- Mae perfformiad Partneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful yn rhagorol, ac mae ganddi ragolygon gwych ar gyfer gwella.
- Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn dda mewn partneriaeth a thrwy gydweithio ag eraill, gan gefnogi ei ddinasyddion er mwyn eu helpu i gadw eu hannibyniaeth ac mae'n cymryd camau i ymdrin â heriau ariannol presennol a heriau ariannol y dyfodol.
- Er bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion Comisiynydd y Gymraeg, mae angen gwneud rhagor o waith.

3 Canfuwyd hefyd bod y ffordd y mae'r Cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ac yn ei werthuso yn gwella ond mae diffyg ystyriaeth benodol o flaenoriaethau'r Cyngor yn yr hunanwerthusiadau yn wendid ar hyn o bryd:

- Mae Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn rhoi asesiad teg a chytbwys o berfformiad. Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond ceir potensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach.

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran ymdrin â'n hargymhellion statudol drwy ddatblygu fframwaith hunanwerthuso corfforaethol a gweithio i wella ansawdd a chysondeb o ran y ffordd y mae gwasanaethau'n defnyddio'r fframwaith.
- Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ond mae'r broses o'u gweithredu ar gam cynnar, ac mae lefel yr her gan bwyllgorau craffu yn gwella.
- Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau.

4 Yn olaf, canfuwyd, yn ystod 2013-14, fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella statudol ac mae'n chwilio am sicrwydd allanol bod ei drefniadau cynllunio ariannol ac ailddylunio gwasanaethau yn ddigon cadarn:

- mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ond dylai gynnal ymgynghoriad penodol i fod yn sail i ddewis ei Feysydd Blaenoriaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru;
- cafodd y Cyngor anhawster i reoli ei gyllideb refeniw dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf ac nid oes gennym sicrwydd eto bod ei drefniadau ar gyfer cynllunio ariannol ac ailddylunio gwasanaeth yn ddigon cadarn i sicrhau £16 miliwn o arbedion dros y pedair blynedd nesaf; ac
- mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14.

5 O ystyried yr uchod, ni allwn eto ddod i gasgliad ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2014-15.

## Argymhellion

6 Nid ydym yn gwneud unrhyw argymhellion newydd eleni, ac mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhellion a'r cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn ein hadroddiadau blaenorol. Amlinellir y cynigion hynny ar gyfer gwella yn ein llythyron asesiad gwella a anfonwyd i'r Cyngor yn ystod y flwyddyn. Mae'r llythyron ar gael ar ein gwefan www.wao.gov.uk.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

7 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Ymgymerwyd â'r gwaith hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran pa un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

8 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

9 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir gwella arnynt. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud mae'n rhaid i'r Cyngor ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad gan wneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

10 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

## Er iddo gyflawni nifer o brosiectau allweddol yn llwyddiannus, daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod yn llai llwyddiannus o ran cyflawni gwelliannau wedi'u targedu mewn perthynas â chanlyniadau i ddinasyddion mewn meysydd blaenoriaeth, a chanfuwyd bod perfformiad ar draws ystod gwasanaethau'r Cyngor yn amrywio

### Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod yn llwyddiannus o ran cyflawni pump o'r wyth prosiect allweddol yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2012-13. O ran canlyniadau blaenoriaethol tymor hwy ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, er y gwnaethpwyd gwelliannau, mae'r Cyngor wedi barnu bod y sefyllfa yn parhau i fod yn anfoddhaol o ran tri o'r pedwar canlyniad blaenoriaethol

11 Rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i wyth prosiect allweddol ar gyfer 2012-13 i gyfrannu at gyflawni pedwar o'i ganlyniadau blaenoriaethol tymor hwy iddo. Yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13*, penderfynodd y bu'n llwyddiannus o ran cyflawni'r pum prosiect canlynol:

- Merthyr yn Darllen, Merthyr yn Llwyddo;
- Mynediad at waith;
- Sgwâr Penderyn a maes parcio aml-lawr;
- Cynllun Cael Merthyr yn Heini; a
- Gwastraff gweddilliol

12 Roedd y Cyngor yn ystyried ei fod wedi bod yn aflwyddiannus o ran cyflawni'r tri phrosiect a oedd yn weddill:

- Cynllun gwella adeiladau;
- Cartrefi am Oes; a
- Gwarchod rhag sbwriel.

13 Mae gwerthusiad y Cyngor o'i lwyddiant yn seiliedig ar y targedau perfformiad y mae wedi'u gosod ar gyfer y prosiectau hyn; nodwyd 22 o dargedau a dim ond naw targed y llwyddodd y Cyngor i'w cyrraedd neu ragori arnynt (41 y cant). Ni chyrhaeddwyd gweddill y targedau (59 y cant) yn bennaf oherwydd diffyg diddordeb yn y Cynlluniau Gwella Adeiladau, yr oedi gydag adeiladu dau gartref gofal newydd a'r ffaith na ddatblygodd y cynllun gwarchod rhag sbwriel yn unol â'r bwriad.

14 Ystyriodd y Cyngor hefyd effaith a chanlyniadau ehangach cyflawni'r prosiectau er mwyn ffurfio barn gyffredinol am berfformiad ar gyfer pob un o'i bedwar canlyniadau blaenoriaethol (gweler Atodiad 4). Er gwaethaf y ffaith ei fod wedi cyflawni rhai prosiectau allweddol ym mhob maes, barnodd y Cyngor fod ei welliant yn anfoddhaol o ran y tair blaenoriaeth ganlynol:

- mae gan bobl ym Merthyr Tudful y cyfle a'r uchelgais i ddysgu a datblygu eu sgiliau i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial;
- mae pobl ym Merthyr Tudful yn elwa o economi gref, gynaliadwy ac amrywiol; ac
- mae pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol a chynaliadwy, lle gallant fyw, gweithio ac ymweld ag o.

15 Barnodd y Cyngor fod ei berfformiad yn ddigonol o ran ei bedwerydd canlyniad blaenoriaethol:

- mae pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel, ac wedi'u cefnogi i fwynhau ansawdd bywyd iachach a gwell.

16 Mae'r farn hon yn seiliedig ar a lwyddodd y Cyngor i wneud gwelliannau ai peidio gan ystyried cyflawni prosiectau allweddol, data tueddiadau yn erbyn dulliau mesur canlyniadau penodol, a sut y mae'r Cyngor wedi perfformio ar lefel genedlaethol o ran dangosyddion perfformiad.

17 Yn ein barn ni mae *Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2012-13* yn rhoi asesiad teg a chytbwys o berfformiad y Cyngor, a gwnawn ragor o sylwadau ar hyn ym mharagraffau 53 i 55 yr adroddiad hwn.

## Mae perfformiad y Cyngor o ran darparu gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn parhau i fod ymhell islaw lefelau derbyniol; mae'r broses o gyflwyno newidiadau'n parhau i fod yn araf ac, er bod trefniadau ar waith i sicrhau mwy o hunanwerthuso a chraffu, mae rhai rhwystrau i'w goresgyn o hyd

18 Y llynedd, adroddodd yr Archwilydd Cyffredinol fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi diddymu cyfrifoldeb y Cyngor am addysg ym mis Chwefror 2013 yn dilyn canfyddiadau anffafriol arolygiad Estyn o wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc a gynhaliwyd ym mis Tachwedd 2012. Yn dilyn hynny, ym mis Mehefin 2013, sefydlodd y Gweinidog Fwrdd Adfer a'i rôl oedd sicrhau bod holl swyddogaethau addysg y Cyngor yn cael eu cyflawni i safon ddigonol.

19 Er mwyn cyflawni gwelliannau yn ei wasanaethau addysg i blant a phobl ifanc cynhyrchodd y Cyngor gynllun gweithredu manwl priodol ar ôl yr arolygiad a oedd yn cynnwys camau cynyddrannol clir i gyflawni'r gwelliant sydd ei angen. Cymeradwywyd y cynllun gweithredu hwn gan aelodau etholedig, y prif weithredwr, a chyfarwyddwyr corfforaethol, a chytunwyd arno gyda'r Bwrdd Adfer. Roedd pawb yn cydnabod yr angen am ddiwygiadau sylfaenol i arferion gwaith yr awdurdod er mwyn dileu'r rhwystrau rhag cynnydd a gwella prosesau cynllunio a rheoli perfformiad.

20 Cynhaliodd Estyn ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014 i adolygu cynnydd y Cyngor yn erbyn dau o'r wyth argymhelliad a ddeilliodd o'r arolygiad, yn ymwneud â'r angen i'r Cyngor wella ei drefniadau ar gyfer hunanasesu a chraffu ar ei berfformiad. Cyhoeddodd Estyn ganlyniad ei ymweliad monitro ar 17 Mawrth 2014, a chaiff ei ganfyddiadau eu crynhoi ym mharagraffau 21 i 23 isod.

21 Daeth Estyn i'r casgliad fod y Bwrdd Adfer wedi creu perthynas waith effeithiol gyda'r Cyngor, a oedd wedi galluogi i swyddogaethau dyddiol yr awdurdod addysg barhau, gan roi'r dulliau angenrheidiol ar waith i'r Bwrdd gyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol. Mae'r Bwrdd Adfer yn dwyn y Cyngor i gyfrif yn dda drwy nodi'n rheolaidd ymchwiliadau penodol, y mae'n mynd ar eu trywydd yn fanwl, gan ddwyn aelodau etholedig a swyddogion i gyfrif am eu gwaith a thystiolaeth o'i effaith. Mae hyn yn arwain at waith ag iddo fwy o ffocws, adroddiadau cliriach ac atebolrwydd sy'n fwy tryloyw.

22 Mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi dangos eu bod yn ymrwymedig i wneud y penderfyniadau anodd sydd eu hangen os ydynt am wella'r ddarpariaeth a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol. Maent wedi cymryd y camau cychwynnol pwysig sydd eu hangen i ysgogi gwelliannau o ran y ddau argymhelliad a oedd yn destun yr ymweliad monitro hwn.

23 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull corfforaethol priodol i wella'r ffordd y mae'n hunanwerthuso. Er mwyn datblygu fframwaith hunanwerthuso newydd mae'r Cyngor wedi ymgynghori ag asiantaethau allanol, wedi defnyddio arbenigedd cyfunol ac unigol aelodau o'r Bwrdd Adfer, ac wedi modelu agweddau ar ei fframwaith newydd ar arferion da awdurdod lleol arall yng Nghymru.

24 Mae'n amlwg bod y prif weithredwr a'r arweinydd yn ymrwymedig i ymgorffori'r fframwaith hunanwerthuso newydd yn holl waith y Cyngor. O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi blaenoriaethu'r gwaith hwn ac wedi ymrwymo'r adnoddau angenrheidiol iddo, yn ogystal â sicrhau bod yr holl feysydd gwasanaeth wedi cynnal adolygiad hunanwerthuso cychwynnol.

25 Cyfarwyddwyr corfforaethol ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd hunanwerthuso, o ran dilyn y broses a sicrhau cywirdeb y wybodaeth a gynhyrchwyd. Er enghraifft, mae'r prif swyddog addysg yn cyfarfod yn rheolaidd â phenaethiaid gwasanaeth ac mae wedi'u cynorthwyo gyda'r broses hon. Mae penaethiaid gwasanaeth yn cynhyrchu datganiadau sefyllfa sy'n amlygu cryfderau, meysydd i'w datblygu a'r risgiau cysylltiedig, a chyflwynir y rhain i aelodau etholedig ac uwch swyddogion mewn sesiynau herio. Mae'r sesiynau herio hyn yn dechrau cael eu defnyddio'n effeithiol i ddwyn penaethiaid gwasanaeth i gyfrif.

26 Mae adroddiadau hunanwerthuso ffurfiol yn parhau i fod ar gam cynnar. Nid yw ysgolion a phartneriaid eraill wedi cyfrannu at yr adroddiad hunanwerthuso sy'n datblygu eto, ac nid yw gwerthusiad o agweddau ehangach y gwasanaeth addysg wedi'i gynnwys hyd yma. O fewn maes cyfrifoldeb y prif swyddog addysg, defnyddia'r gwasanaethau addysg galendr hunanwerthuso i nodi'r gweithgareddau y mae angen iddynt eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Swyddogion allweddol yn y gyfarwyddiaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod y tasgau hyn yn cael eu cwblhau. Mae hyn yn cynnwys adrodd i'r Bwrdd Adfer ac aelodau etholedig yn rheolaidd. Er bod y swyddogaethau addysg yn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymunedol yn gwneud cynnydd clir a chyson o ran datblygu dulliau ymarfer myfyriol, nid yw gweithgaredd hunanwerthuso rheolaidd a pharhaus wedi bwrw gwreiddiau eto. O ganlyniad, nid yw'n ddigon clir eto pa mor dda yw perfformiad y Cyngor.

27 Mae'r Cyngor wedi dechrau gwella'r ffordd y mae'n dwyn cyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyfrif am berfformiad eu hysgolion a chanlyniadau addysgol disgyblion yn erbyn fframwaith clir sy'n datblygu. Mae'r Cyngor wedi sicrhau bod yr holl gyrff llywodraethu wedi sefydlu pwyllgor safonau, ac wedi rhoi cymorth a hyfforddiant i lywodraethwyr wella eu dealltwriaeth o ddata perfformiad ysgolion. O ganlyniad, mae llywodraethwyr yn datblygu eu hyder a'u sgiliau o ran herio penaethiaid ac uwch reolwyr am y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion.

28 Cwblhaodd y Cyngor y gwaith o ddiweddaru'r rhaglen categoreiddio ysgolion yn llwyddiannus yn ystod tymor yr hydref. Mae hyn wedi galluogi Consortiwm Canol De Cymru a'r Cyngor i gytuno ar y lefel briodol o gymorth a her ar gyfer pob ysgol. Mewn ysgolion, defnyddir cynlluniau gwella carlam yn effeithiol ac mae penaethiaid wedi cyflwyno canlyniadau interim y cynlluniau hyn i Fwrdd Gwella Gwasanaethau Addysg y Cyngor ac i bwyllgorau craffu'r Cyngor. Fodd bynnag, ni all y Cyngor asesu effaith partneriaethau ehangach ar ganlyniadau plant a phobl ifanc yn yr un ffordd.

29 Yn dilyn arolygiad Estyn yn 2012, adolygodd y Cyngor drefniadau ei bwyllgorau craffu gan roi rhaglen wella ar waith. Bellach, mae'r Cyngor yn craffu ar ei wasanaethau addysg drwy waith y Bwrdd Gwella Gwasanaethau Addysg a dau bwyllgor craffu:

- y pwyllgor craffu ar ysgolion, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau sy'n ymwneud ag ysgolion a pherfformiad ysgolion; a'r
- pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol ac adfywio cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar wasanaethau addysg cymunedol.

30 Mae’r pwyllgor craffu ar ysgolion wedi adolygu’r ffordd y mae’n gweithredu ac mae wedi gwneud newidiadau i’r ffordd y mae’n paratoi ar gyfer cyfarfodydd ac yn gwerthuso ei berfformiad. Cynhelir cyfarfodydd yn fwy rheolaidd erbyn hyn, ac mae hynny’n galluogi’r pwyllgor i fod yn fwy heriol o ran ei raglen waith, gan ganolbwyntio mwy ar adroddiadau rheolaidd ar berfformiad ysgolion a disgyblion. Mae’r ffocws hwn yn cynnwys galw am adroddiadau gan ystod eang o swyddogion a phenaethiaid. Yn ogystal, mae aelodau’r pwyllgor hefyd yn ymweld ag ysgolion er mwyn cael gwell dealltwriaeth o sut mae eu hysgolion yn gweithio. Mae’r pwyllgor craffu ar ysgolion wedi cael hyfforddiant penodol i’w helpu i ddeall yn well ddata’n ymwneud ag ysgolion a disgyblion a’u dehongli’n fwy cywir. Yn ddiweddar, mae cadeiryddion y pwyllgor craffu ar ysgolion a’r pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol ac adfywio wedi dechrau cwrdd i drafod materion sydd o fudd i’r ddau bwyllgor mewn perthynas â gwasanaethau addysg y Cyngor.

31 Yn ddiweddar cynhaliodd y Cyngor werthusiad o berfformiad y pwyllgor craffu ar ysgolion, a nododd yn glir yr heriau pwysig y mae’n parhau i’w hwynebu. Mae’r gwerthusiad hwn yn amlinellu’n effeithiol yr agenda ar gyfer newid os am barhau â’r broses wella hon a’i chyflymu. Amlyga’r gwerthusiad, yn benodol, yr angen i’r pwyllgor craffu ddwyn y cabinet a deiliaid portffolio i gyfrif yn well, yn ogystal â’r angen i aelodau’r pwyllgorau leihau eu dibyniaeth ar swyddogion i ddarparu ysgogiadau a chwestiynau, ac i ddatblygu cwestiynau mwy trylwyr a heriol eu hunain.

32 Fodd bynnag, nid yw’r Cyngor wedi cynnal gwerthusiad tebyg o’r pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol ac adfywio cymdeithasol. Gan fod y pwyllgor hwn hefyd yn edrych ar wasanaethau addysg, mae gwerthusiad o’r fath yn bwysig. O ganlyniad nid yw’r Cyngor wedi dangos pa mor dda y mae’r pwyllgor gwasanaethau cymdeithasol ac adfywio cymdeithasol yn ymgymryd â’r gwaith hwn, neu pa mor dda y mae’r ddau bwyllgor yn cydweithio i sicrhau bod darpariaeth, trefniadau rheoli a chanlyniadau sy’n pontio’r ddau faes yn cael eu cysylltu ac y creffir arnynt yn briodol.

33 Mae adroddiadau gan swyddogion i’r pwyllgor craffu ar ysgolion yn gwella. Bellach mae’r adroddiadau’n cynnwys negeseuon pwysig a phendant am faint yr her sy’n wynebu’r Cyngor a’i ysgolion. Er bod adroddiadau swyddogion yn cynnwys mwy o ddata ar berfformiad ysgolion a disgyblion, gall y modd y cyflwynir y deunydd hwn a’i swm lethu darllenwyr nad oes ganddynt gefndir yn y maes dehongli data. Pan fydd adroddiadau’n cynnwys symiau sylweddol o wybodaeth, nid yw swyddogion yn esbonio’n ddigon clir bob tro beth mae’r data yn ei ddangos, a beth yw ystyr y wybodaeth. Yn yr achosion hyn, ni all aelodau o bwyllgorau craffu herio swyddogion yn effeithiol na gwneud penderfyniadau hyddysg i hyrwyddo gwelliannau mewn cynllunio a darpariaeth o ran y gwasanaethau addysg.

## Mae perfformiad Partneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful yn rhagorol, ac mae ganddi ragolygon gwych ar gyfer gwella

34 Arolygwyd Partneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful, lle mae'r Cyngor yn gweithio â darparwyr eraill i ddarparu gwasanaeth dysgu oedolion yn y gymuned yn y Fwrdeistref Sirol, gan Estyn ym mis Tachwedd 2013. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad arolygu ym mis Chwefror 2014 ac mae hwn ar gael ar ei wefan www.estyn.gov.uk. Caiff canfyddiadau Estyn eu crynhoi ym mharagraffau 35 i 38 isod.

35 Mae pedwar prif ddarparwr ym Mhartneriaeth Dysgu Cymunedol Merthyr Tudful:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil;
- Coleg Merthyr;
- Canolfan Cymraeg i Oedolion Merthyr; a
- Chymdeithas Addysg y Gweithwyr.

36 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr yn cyflwyno tua 15 y cant o'r ddarpariaeth. Mae tua 32 y cant yn ddarpariaeth freiniol, gan gynnwys Addysg Sylfaenol i Oedolion a Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE). Mae Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn cyflwyno tua 53 y cant o'r ddarpariaeth, gan gynnwys darpariaeth graidd a chyswllt dysgu.

37 Barnodd Estyn fod perfformiad presennol y bartneriaeth yn rhagorol oherwydd:

- roedd nifer y dysgwyr a gwblhaodd eu cwrs yn llwyddiannus yn 2012 yn un o'r gorau yn y sector;
- mae dysgwyr o ardaloedd o ddifreintedd yn cyflawni'n well na dysgwyr tebyg mewn ardaloedd eraill o Gymru;
- mae'r bartneriaeth yn cyflwyno ystod eang o raglenni sy'n ateb anghenion dysgu a lles dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn effeithiol iawn;
- caiff y cwricwlwm ei gynllunio'n effeithiol i roi ystyriaeth dda iawn i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae'n mynd i'r afael ag agenda gwrthdlodi Llywodraeth Cymru yn eithriadol o dda; ac
- mae'r bartneriaeth yn rhoi blaenoriaeth uchel i gyrsiau sy'n gwella medrau llythrennedd, rhifedd a chyflogadwyedd dysgwyr.

38 Bernir bod rhagolygon gwella'r bartneriaeth yn rhagorol oherwydd:

- mae'r bartneriaeth wedi'i seilio ar gydraddoldeb, didwylledd a gweledigaeth ar y cyd ar gyfer Merthyr Tudful;
- mae partneriaid yn rhannu ymddiriedaeth a pharch sylweddol tuag at ei gilydd, sy'n eu galluogi i gefnogi ei gilydd a herio deilliannau a safonau'n gadarn;
- caiff cyfrifoldeb am y meysydd cyflwyno sydd â blaenoriaeth ei rannu rhwng y partneriaid;

- mae'r cynllunio strategol ym mhartneriaeth dysgu cymunedol Merthyr Tudful yn gryf iawn;
- mae cyfeiriad strategol cryf i gynnig gwasanaeth hollgynhwysol sy'n hybu iechyd a lles ochr yn ochr â'r dysgu perthnasol; ac
- mae'r cwricwlwm a chyflwyno'r ddarpariaeth yn cael eu cynllunio'n feddylgar iawn ac mae cydlyniad arbennig iawn rhwng y fformat a'r blaenoriaethau yn y cynllun integredig sengl, y cynllun corfforaethol a'r strategaeth dysgu cymunedol.

## Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol yn dda mewn partneriaeth a thrwy gydweithio ag eraill, gan gefnogi ei ddinasyddion er mwyn eu helpu i gadw eu hannibyniaeth ac mae'n cymryd camau i ymdrin â heriau ariannol presennol a heriau ariannol y dyfodol

39 Ceir cyfeiriad strategol cryf ar gyfer dyfodol gwasanaethau cymdeithasol yn seiliedig ar gydweithio a gweithio mewn partneriaeth. Mae hyn wedi cefnogi gwell gwasanaethau i bobl yn eu cymuned eu hunain.

40 Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi ei ddinasyddion i'w helpu i gadw eu hannibyniaeth. Er bod cyfradd y bobl dros 65 oed yn y gymuned fesul mil o'r boblogaeth wedi gostwng ychydig y llynedd, mae'n parhau i fod ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru ac mae mwy o bobl dros 65 oed yn derbyn gwasanaeth yn y cartref.

41 Mae gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a ddarperir ar y cyd ym Mharc Iechyd Kier Hardie yn destament i'r gwaith partneriaeth cryf rhwng y Cyngor a'i bartneriaid. Mae'r Parc Iechyd wedi bod ar agor ers blwyddyn ac erbyn hyn darperir ystod o wasanaethau galluogi o'r Parc. Amlygir y cynnydd gyda moderneiddio a gweithio ar y cyd ag eraill drwy'r gwaith yn y Parc iechyd fel maes cynnydd yn *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012-13* Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).

42 Yn ogystal, nododd AGGCC y canlynol yn yr *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2011/12*: 'Arweiniodd effaith pwysau'r gaeaf at gynnydd i nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ail a thrydydd chwarter y llynedd. Er bod dulliau ar waith i ymdrin â chynnydd o'r fath, mae angen gwneud mwy o waith gyda'r bwrdd iechyd lleol ynglŷn â nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau i sicrhau nad oes oedi diangen wrth ryddhau o'r ysbyty yn y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda'i bartneriaid iechyd i fynd i'r afael ag oedi wrth drosglwyddo gofal ac mae ei berfformiad wedi gwella'n sylweddol eleni.

43 Yn ogystal gwnaeth y Cyngor gynnydd o ran gweithredu ei Strategaeth Cartrefi am Oes gan agor dau gartref preswyl newydd yn 2013 sy'n darparu llety o'r radd flaenaf i'r henoed.

44 O ran Gwasanaethau Plant, dywedodd AGGCC yn ei adroddiad: 'Bu'n flwyddyn o atgyfnerthu yn y gwasanaethau i blant, gyda phwyslais ar ddeall patrymau a thueddiadau sy'n newid i blant a phobl ifanc. Mae nifer o fentrau yn cael eu datblygu a seiliwyd ar fentrau Llywodraeth Cymru a'r gydnabyddiaeth o'r manteision i'r cyngor o weithio gydag awdurdodau cyfagos. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau maethu a mabwysiadu a'r potensial i ddarparu gwasanaethau troseddau ieuenctid ar draws Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.' Daeth AGGCC i'r casgliad: 'Gwnaed gwelliannau yn y gwasanaethau i blant o ran prydlondeb asesiadau, cynlluniau pontio a datblygu dull ataliol. Mae angen gwneud mwy o waith o ran gwasanaethau mabwysiadu a maethu ac mae trefniadau partneriaeth mwy hirdymor yn cael eu datblygu.'

45 Nododd AGGCC y risgiau posibl canlynol hefyd yn y Cyngor:

- pwysau ar gyllidebau a'r posibilrwydd o ddiffyg parhaus a chynyddol yn y gyllideb, yn enwedig o ystyried ffactorau allanol fel diwygio lles;
- cynnydd mewn galw ar y ddarpariaeth o wasanaethau gan boblogaeth sy'n tyfu, yn enwedig o ran pobl hŷn; ac
- effaith pwysau'r gaeaf ar y galw am wasanaethau a'r effaith ar gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, yn enwedig pan fo angen eglurder o ran cyfrifoldeb ariannol am leoliadau gofal cartref.

46 Amlygodd AGGCC hefyd y meysydd canlynol o arfer da:

- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelu a gynhaliwyd gan aelodau staff gwasanaethau cymdeithasol mewn ysgolion a meithrinfeydd ledled y fwrdeistref. Hyfforddwyd dros 400 o aelodau staff yn ystod y flwyddyn.
- Canolfan i Deuluoedd Gellideg, lle mae ansawdd y gwasanaeth wedi cael ei gydnabod yn annibynnol gan ddyfarniad y Sefydliad Safonau Prydeinig, yn ogystal â nod barcut 9001 y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, y ganolfan gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r statws hwn.
- *Mwstwr Merthyr*, gwefan i bobl ifanc leisio eu barn trwy gyfrwng gwefannau a rhwydweithio cymdeithasol a enwebwyd ar gyfer gwobr genedlaethol.

47 Canfu adolygiad AGGCC o adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ei fod yn 'gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar ddinasyddion. Mae'n nodi'r blaenoriaethau ar gyfer gwella a newid sy'n eglur o ran eu bwriad ac yn rhwydd i bob cynulleidfa eu darllen. Er ei fod yn dathlu nifer o lwyddiannau, mae hefyd yn cydnabod yr angen penodol i ganolbwyntio ar fesur canlyniadau i'r rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau. Mae'n cydnabod yr heriau a wynebir gan yr awdurdod, yn enwedig effaith cyllidebau llai a chanlyniadau newidiadau

i ddeddfwriaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.' Mae copi llawn o adroddiad AGGCC ar www.cssiw.org.uk.

48 Cymeradwyodd y Cyngor ei gyllideb ar gyfer 2014-15 ar 26 Chwefror 2014. Wrth bennu cyllideb y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol, nododd y Cyngor alwadau ychwanegol nad oedd modd eu hosgoi gan gynnwys:

- talu costau lleoliadau mewn gofal nyrsio a phreswyl yn sgil galw cynyddol a phwysau demograffig;
- unigolion sy'n pontio o wasanaethau plant y mae angen pecynnau gofal pwrpasol arnynt;
- darpariaeth gofal annibynnol - rhannu bywydau; galw cynyddol i ddiwallu lleoliadau ar gyfer oedolion;
- cynnydd yn y galw ac yn y ffioedd ar gyfer taliadau uniongyrchol i oedolion;
- cynnydd yn y galw am wasanaethau trafnidiaeth a fflyd ar gyfer yr henoed a'r anabl;
- cynnydd yn y galw am wasanaethau a thaliadau i blant ag anableddau; a
- mwy o fuddsoddiad mewn lleoedd mabwysiadu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r Cyngor wedi costio'r galwadau hyn (cyfanswm o £1.05 miliwn) ac wedi darparu cyllid o fewn cyllideb 2014-15 y gyfarwyddiaeth. Mae gan y gyfarwyddiaeth hanes o orwario'n sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol ac mae rheoli hyn wedi bod yn her i'r Cyngor. Bydd y cyllid penodedig hwn yn helpu i leihau'r risg a maint y gorwariant yn y dyfodol, ond mae'r ansefydlogrwydd penodol a chostau uchel y gwasanaeth statudol hwn yn golygu nad oes modd lliniaru'r risg yn gyfan gwbl.

49 Fel cynghorau eraill yng Nghymru, mae'n rhaid i'r Cyngor gyflawni arbedion sylweddol yn ystod y tymor canolig oherwydd gostyngiadau mewn gwariant cyhoeddus o dan y mesurau cyni. Er bod gofal cymdeithasol yn un o flaenoriaethau'r Cyngor, mae arweinwyr y Cyngor wedi ei gwneud yn glir bod maint yn arbedion y mae'n rhaid eu cyflawni yn golygu yr effeithir ar bob maes gwasanaeth. Mae cyllideb 2014-15 y gyfarwyddiaeth hefyd yn cynnwys arbedion effeithlonrwydd a gaiff eu cyflawni drwy amrywiol ddulliau gan gynnwys:

- datgomisiynu'r Rhaglen Heneiddio'n Iach;
- cymhwyso meini prawf cymhwysedd am wasanaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau er mwyn sicrhau bod cymorth yn cael ei dargedu at y teuluoedd â'r angen mwyaf;
- rhoi'r gorau i ddarparu'r Gwasanaeth Pryd ar Glud presennol (lle mae pobl wedi cael eu hasesu fel bod angen cymorth arnynt i baratoi prydau, bydd hyn yn cael ei ddarparu drwy'r gwasanaethau gofal cartref neu ddewis addas amgen yn y dyfodol);

- cau'r Gwasanaeth Canolfan Ddydd i Bobl Hŷn yn Forest Road yn Nhreharris ac adleoli defnyddwyr presennol y gwasanaeth i ganolfan ddydd amgen;
- cau'r holl ganolfannau ieuenctid rhan amser; a
- newid defnydd canolfannau cymunedol a defnyddio dulliau amgen o ddarparu gwasanaeth.

Mae'r Cyngor wedi asesu risg pob un o'r cynigion arbedion effeithlonrwydd hyn gan gynnwys asesiad o'u heffaith ar gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor, ac wedi cynnal ymgynghoriad helaeth gyda dinasyddion cyn penderfynu eu cefnogi. Mae'n amlwg bod y Cyngor wedi ceisio canfod ffyrdd i sicrhau y gellir darparu gwasanaethau na fyddent yn cael eu darparu gan y Cyngor mwyach drwy ddulliau eraill.

## Er bod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag argymhellion Comisiynydd y Gymraeg, mae angen gwneud rhagor o waith

50 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Disgwylir i'r pwerau newydd i osod safonau ar sefydliadau ddod i rym drwy is-ddeddfwriaeth erbyn diwedd 2014. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

51 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar eu gweithredu. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn ymrwymedig i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad o ran gweithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn rhoi adborth ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl y gofyn.

52 Ar gyfer 2012-13, dywedodd y Comisiynydd fod y Cyngor wedi cymryd camau i weithredu argymhellion ymchwiliad statudol a gynhaliwyd i Gynllun iaith y Cyngor yn 2012, ond mae angen cymryd rhagor o gamau i sicrhau cynnydd yn yr hirdymor. Bydd angen ailsefydlu Pwyllgor mewnol ar y Gymraeg er mwyn arwain y gwaith o weithredu'r Cynllun. Bydd angen i'r Polisi Golygyddol a'r Strategaeth Sgiliau Iaith a fabwysiadwyd o ganlyniad i'r ymchwiliad gael eu gweithredu er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Bydd angen i'r Cyngor barhau i ddatblygu tudalennau gwe Cymraeg ar ei wefan a sicrhau parhad y trefniadau golygyddol. Yn olaf, roedd nifer y staff a gafodd hyfforddiant yn y Gymraeg yn 2012/13 yn fach. Gyda'r cyfyngiadau presennol ar recriwtio, mae gwella sgiliau drwy hyfforddiant yn gynyddol bwysig a bydd angen i'r Cyngor ymdrin â hyn yn y flwyddyn i ddod.

## Mae'r ffordd y mae'r cyngor yn adrodd ar ei berfformiad ac yn ei werthuso yn gwella ond mae diffyg ystyriaeth benodol o flaenoriaethau'r Cyngor yn yr hunanwerthusiadau yn wendid ar hyn o bryd

### Nid yw Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor yn rhoi asesiad teg a chytbwys o berfformiad. Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur ond ceir potensial i gryfhau ei drefniadau ymhellach

53 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ystod 20120-13 yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13* (yr Adroddiad) cyn 31 Hydref 2013 yn unol â gofynion statudol. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi crynodeb o'i Adroddiad. Mae'r fersiwn llawn a'r crynodebau ar gael ar wefan y Cyngor, ac mae copïau papur ar gael yn ei brif adeiladau cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

54 Mae'r Adroddiad yn asesu perfformiad y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol (2012-13) ac yn nodi sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Mesur. Mae'r adroddiad yn gwerthuso llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei amcanion gwella gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth ehangach nag mewn blynyddoedd blaenorol er mwyn gwneud hynny ac yn gyffredinol mae'n cyflwyno ei berfformiad mewn ffordd gytbwys a theg. Credwn y byddai'r Cyngor wedi elwa ar ddefnyddio rhagor o dystiolaeth o Adroddiad Blynyddol ei Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn rhoi darlun llawnach o wasanaethau cymdeithasol y Cyngor, yn arbennig er mwyn dangos canlyniadau llwyddiannus mewn perthynas â'r amcan o hyrwyddo annibyniaeth pobl hŷn.

55 Mae'r Adroddiad yn cynnwys manylion perfformiad a chymariaethau fel y mesurir gan ddangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol ond mae lle i fynegi'n gliriach beth yw ystyr y wybodaeth hon a beth mae'r Cyngor wedi'i wneud yn ei sgil. Amlinellir hefyd sut y mae'r Cyngor wedi ceisio cydweithio ond gellid cryfhau hyn drwy esbonio'n fwy cyson y canlyniadau a'r manteision a gyflawnwyd yn sgil y cydweithio hwn.

### Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd cyson o ran ymdrin â'n hargymhellion statudol drwy ddatblygu fframwaith hunanwerthuso corfforaethol a gweithio i wella ansawdd a chysondeb o ran y ffordd y mae gwasanaethau'n defnyddio'r fframwaith

56 Yn Adroddiad Gwella Blynyddol yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, gwnaethom argymhelliad statudol i'r Cyngor i:

- ddatblygu mesurau perfformiad sy'n diffinio'n gliriach beth fydd llwyddiant o ran cyflawni ei flaenoriaethau gwella corfforaethol;
- datblygu ei drefniadau i sicrhau gwerthusiad mwy trylwyr o berfformiad gwasanaethau, a'r cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau sy'n flaenoriaethau corfforaethol; a
- sicrhau bod dinasyddion yn cael darlun teg, cytbwys ac ystyrlon o berfformiad y Cyngor.

57 Yn Llythyr Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2013, adroddwyd bod angen gwneud rhagor o waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad statudol hwn. Rhoddwn ddiweddariad ar gynnydd y Cyngor isod.

58 Mae'n amlwg bod y mesurau sydd yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17 yn welliant o gymharu â mesurau'r blynyddoedd blaenorol ond nid yw'r cysylltiadau rhwng y mesurau a'r camau gweithredu yn glir bob tro. Mae angen gwneud rhagor o waith o hyd yn y maes hwn. Mae'r Cyngor bellach wrthi'n penderfynu ar ei flaenoriaethau corfforaethol ar gyfer 2014-15 ac mae'n gweithio i gryfhau'r cysylltiadau rhwng ei gamau a'i fesurau fel rhan o'r broses hon.

59 Mae Fframwaith Gwella Gwasanaethau newydd ar waith wedi'i ategu gan ddull corfforaethol o hunanwerthuso. Yn ddiweddar mae'r Cyngor wedi cwblhau ei werthusiad cyntaf a arweiniodd at ddatblygu Adroddiad Hunanwerthuso cyntaf y Cyngor cyfan, sy'n rhoi cyfres o ddyfarniadau am gyflwr ei wasanaethau mewn tri maes: canlyniadau, darparu gwasanaethau, arwain a rheoli. Mae hefyd yn cynnwys asesiad arwain a rheoli corfforaethol cychwynnol. Seilir y diffiniadau o'r dyfarniadau ar y rhai a ddefnyddir gan Estyn. Mae pob gwasanaeth wedi cymryd rhan yn y broses hunanwerthuso sydd wedi cynnwys her fewnol gan baneli sy'n cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth, y Cabinet, Aelodau a Chadeiryddion Pwyllgorau Craffu ac Archwilio. Roedd aelodaeth o'r paneli hyn yn hyblyg er mwyn hwyluso dysgu a chyfathrebu.

60 Dylid canmol pa mor gyflym mae'r Cyngor wedi cyflwyno ei fframwaith newydd ac wedi cwblhau ei hunanwerthusiad cyntaf. Rydym yn pryderu, fodd bynnag, na chymerodd y Cyngor y cyfle i werthuso ei gynnydd yn erbyn ei flaenoriaethau corfforaethol. Mae'r diffyg ystyriaeth benodol o flaenoriaethau'r Cyngor yn yr hunanwerthusiadau yn wendid ar hyn o bryd. Rydym yn deall bod yr Adroddiad Hunanwerthuso wedi'i ddefnyddio fel sail ar gyfer pennu cyllideb a blaenoriaethau'r Cyngor yn ogystal â chynlluniau busnes gwasanaethau unigol. Byddwn yn awyddus i weld sut mae hyn wedi gweithio'n ymarferol o gofio'r diffyg cyswllt presennol rhwng hunanwerthusiad y Cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer gwella.

61 Yn ogystal, canfu adolygiad o sampl o hunanwerthusiadau a gwblhawyd fod eu hansawdd yn anghyson. Nid yw gwasanaethau wedi ateb y cwestiynau'n briodol bob tro, ac roedd rhywfaint o'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn wan. Rydym yn gwerthfawrogi mai dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ymgymryd â'r broses hon ac mae'n galonogol bod swyddogion eisoes wedi nodi ffyrdd o wella arni. At ei gilydd, roedd yr adborth gan swyddogion ac aelodau a fu'n rhan o'r broses yn gadarnhaol. Yn Llythyr Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol dyddiedig 29 Tachwedd 2014, dywedodd fod y Cyngor wedi cyflwyno ei berfformiad mewn ffordd deg a chytbwys yn ei *Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13*.

## Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad ond mae'r broses o'u gweithredu ar gam cynnar, ac mae lefel yr her gan bwyllgorau craffu yn gwella

62 Bu cryn weithgaredd a newid mewn perthynas â threfniadau rheoli perfformiad dros y misoedd diwethaf yn unol â ffocws y Cyngor ar ddatblygu diwylliant o ddisgwyliadau ac atebolrwydd uchel. Mae'r Cyngor yn adolygu ac yn cryfhau'r ffordd y mae'n monitro ac yn adrodd ar berfformiad. Erbyn hyn caiff perfformiad ei fonitro'n gynt ar ôl diwedd bob chwarter. Ceir amserlen sy'n pennu pryd y caiff perfformiad yn erbyn blaenoriaethau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth strategol eu monitro gan fforymau a phwyllgorau priodol. Mae'n amlwg bod adroddiadau mwy manwl wedi'u llunio ar berfformiad, yn arbennig mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol ac addysg.

63 Tan yn ddiweddar, roedd y Cyngor yn defnyddio Ffynnon[1] fel y prif gyfrwng i hwyluso'r gwaith monitro perfformiad. Fodd bynnag, dim ond tan fis Mehefin 2014 y bydd Ffynnon ar gael gan fod Llywodraeth Cymru yn tendro ar gyfer system meddalwedd rheoli perfformiad newydd. Mae'r Cyngor, felly, wedi datblygu cardiau adrodd gan adeiladu ar y rhai a ddefnyddir gan y Gwasanaethau Cymdeithasol, i ddisodli Ffynnon. Mae'r cardiau adrodd yn dwyn ynghyd ystod o wybodaeth i hwyluso'r gwaith o werthuso ac adrodd ar berfformiad yn well gan ddilyn egwyddorion Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau.

64 Cyflwynwyd adroddiad cynnydd hanner blwyddyn yn erbyn blaenoriaethau'r Cyngor i'r Cabinet ym mis Ionawr 2014 gan ddefnyddio'r cardiau adrodd newydd hyn. Nododd ein hadolygiad o'r cardiau adnabod fylchau yn y wybodaeth ac mae'n amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau eu bod yn cael eu cwblhau yn gyson ac yn gynhwysfawr er mwyn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i Aelodau er mwyn monitro a herio perfformiad yn effeithiol. Yn hyn o beth, mae'n amlwg bod y defnydd o gardiau adrodd yn parhau i fod yn ei fabandod ac mae angen gwella ansawdd a chysondeb. Byddwn yn awyddus iawn i weld sut mae'r defnydd o'r cardiau adrodd a'u heffaith yn datblygu yn ystod y chwarter nesaf.

65 Yn dilyn ymweliad monitro ym mis Chwefror 2014, adroddodd Estyn fod y broses o gyflwyno dull diwygiedig y Cyngor o reoli perfformiad ar gam cynnar iawn yn ei hanes. Nid yw uwch swyddogion yn y Cyngor wedi sicrhau cytundeb ynghylch eu targedau monitro perfformiad eto. Golyga hyn nad yw'r broses o bennu amcanion ar gyfer swyddogion unigol sy'n cysylltu perfformiad adrannau'r Cyngor a gwasanaethau â blaenoriaethau corfforaethol, ar waith eto. O fewn y gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymunedol, nid yw'r uwch staff addysg wedi sicrhau cytundeb ynghylch eu targedau rheoli perfformiad ac yn fwy cyffredinol, nid yw swyddogion addysg wedi cyflwyno tystiolaeth reolaidd ar gyflawni amcanion yn ystod y 12 mis diwethaf.

1 Meddalwedd wedi'i brynu'n genedlaethol er mwyn diwallu gofynion rheoli perfformiad awdurdodau lleol, gwasanaethau tân ac achub ac awdurdodau lleol parciau cenedlaethol a'u partneriaid yw Ffynnon.

66 Mae pwyllgorau craffu'r Cyngor yn aeddfedu ac mae lefel yr her yn gwella. Ymgysylltodd y Cyngor yn gadarnhaol â'r prosiect Cyfnewidfa Ddysgu ar Graffu ac mae wedi gwneud rhai newidiadau i'w drefniadau craffu o ganlyniad. Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi gydag Aelodau i gryfhau eu sgiliau cwestiynu ac mae'n amlwg o arsylwi mewn pwyllgorau craffu fod hyn wedi bod yn fuddiol. Er enghraifft, mae'r aelodau'n awyddus i chwarae mwy o ran ym mhroses hunanwerthuso'r Cyngor. Mae hyder yr aelodau i herio swyddogion yn cynyddu ond mae angen iddynt yn awr sicrhau eu bod yn gofyn cwestiynau atodol yn fwy trylwyr er mwyn cadarnhau eu bod wedi cael ymateb llawn a phriodol gan swyddogion. Dylent fanteisio i'r eithaf ar y cymorth a gynigir gan y Swyddog Craffu gan roi ystyriaeth ddyledus i'r ymchwil a'r cwestiynau a argymhellir.

67 Nododd AGGCC yn yr *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2011/12*: 'Ceir gwaith craffu effeithiol. Roedd hyn yn amlwg pan oedd AGGCC yn bresennol mewn cyfarfod pwyllgor craffu wrth i aelodau herio uwch swyddogion yn effeithiol ynglŷn â'r modelau gofal newydd a gynigiwyd, yn ogystal ag archwilio gwybodaeth am berfformiad yn y gwasanaethau i blant. Er hyn cydnabyddir bod mwy o waith i'w wneud gydag aelodau'n gorfforaethol er mwyn deall a datblygu eu swyddogaethau'n llawn.'

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

68 Yn ddiweddar rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor, a rhoddodd y farn fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau'n ymwneud â chyflwyno adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella statudol ac mae'n chwilio am sicrwydd allanol bod ei drefniadau cynllunio ariannol ac ail-ddylunio gwasanaethau yn ddigon cadarn

### Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ond dylai gynnal ymgynghoriad penodol i fod yn sail i ddewis ei Feysydd Blaenoriaeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru

69 Yn ein hasesiad o amcanion gwella'r Cyngor (a elwir yn Feysydd Blaenoriaeth) a'i gynllun gwella blynyddol (a elwir yn Gynllun Corfforaethol 2013-17) daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio ar gyfer gwella o dan y Mesur ond y dylai ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru yn fwy clos.

70 Cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Corfforaethol (y Cynllun) ynghyd â Chrynodeb Cyhoeddus ar 25 Mehefin 2013. Mae'r dogfennau hyn ar gael ar wefan y Cyngor yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac mae copïau papur ar gael yn y prif adeiladau cyhoeddus. Yn ystod yr wythnos ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, cafodd defnyddwyr eu cyfeirio at y dogfennau drwy'r pennawd newyddion ar dudalen flaen y wefan. Defnyddiodd y Cyngor gyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo mwy o ymgysylltu â'i gynlluniau gan randdeiliaid.

71 Wrth ddatblygu ei Gynllun, mae'r Cyngor hefyd wedi defnyddio'r gwaith ymgynghori sylweddol a wnaethpwyd fel sail i'r Cynllun Integredig Sengl ar gyfer Merthyr Tudful 2013-17. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â grwpiau penodol gan gynnwys plant a phobl ifanc, a'r Trydydd Sector.

72 Cynhaliodd y Cyngor gyfres o sioeau teithiol hefyd a chyhoeddodd arolwg ar lein fel rhan o'r Ymgynghoriad ar y Gyllideb i ofyn i'r cyhoedd a oeddent yn cytuno â'r pedwar Canlyniad Blaenoriaethol a nodir yn y Cynllun Integredig Sengl. Caiff canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn eu crynhoi yn y Cynllun ond nid yw'r Cynllun yn amlinellu sut y mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei ddefnyddio'n benodol i ddylanwadu ar Feysydd Blaenoriaeth y Cyngor. At hynny, ni chynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad penodol fel sail i'r gwaith o ddewis ei Feysydd Blaenoriaeth yn unol â'r hyn sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru.

73 Fel y nodwyd yn gynharach, gwnaethom argymhelliad statudol y llynedd i'r Cyngor ddatblygu gwell mesurau perfformiad mesurau perfformiad, ac mae'r mesurau diwygiedig sydd yn y Cynllun yn welliant o gymharu â mesurau'r blynyddoedd blaenorol. Mae'n amlwg fod y cynnydd o ran ymgysylltiad gwasanaethau â'r broses o ddethol Meysydd Blaenoriaeth y Cyngor a datblygu mesurau sy'n fwy seiliedig ar ganlyniadau eleni wedi bod yn fuddiol. Fodd bynnag, nododd ein hasesiad o Gynllun y Cyngor fod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod y cysylltiadau rhwng camau, canlyniadau a mesurau yn gyson glir. Yn ogystal, nodwyd prosiectau arfaethedig a chawsant eu blaenoriaethu yn erbyn set o feini prawf a nodwyd gan y Bwrdd Gweithredol, a thrafodwyd rhestr fer gyda gwasanaethau ac Aelodau'r Cabinet. Fodd bynnag, ar y cyfan, dewiswyd prosiectau presennol neu brosiectau a oedd ar y gweill a chanddynt ffrydiau ariannu sefydlog, sy'n codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae blaenoriaethau'r Cyngor yn llywio ei weithgareddau gwella, yn hytrach na chrynhoi ei fusnes arferol.

74 Daeth ein hasesiad o sampl o fesurau perfformiad a systemau data gweithredol y Cyngor i'r casgliad fod gan y Cyngor drefniadau dilysu data cadarn ar waith sy'n parhau i wella. Bu'r buddsoddiad y llynedd mewn aelod ychwanegol o staff i weithio gyda gwasanaethau er mwyn gwella trefniadau sicrwydd ansawdd yn fuddiol. Mae gan y Cyngor systemau da ar waith i gynhyrchu data ar ddangosyddion perfformiad, ond gellid gwneud rhagor o welliannau. Ni wnaethom amodi unrhyw un o ddangosyddion y Cyngor.

75 Yn y gorffennol fe wnaethom godi cynnig ar gyfer gwella, sef bod angen i'r Cyngor werthuso goblygiadau ariannol a goblygiadau i'r gweithlu ac i asedau yn sgil cyflawni ei flaenoriaethau er mwyn i'w gynllun ariannol tymor canol gael ei ddefnyddio fel offeryn cynllunio effeithiol i nodi sut y darperir adnoddau ar gyfer y blaenoriaethau hyn. Mae gwaith ar y gweill i gyflwyno'r cylch cynllunio corfforaethol yn gynnar er mwyn hwyluso mwy o integreiddio rhwng pennu blaenoriaethau a chynllunio adnoddau ar gyfer 2014-15 a thu hwnt.

## Cafodd y Cyngor anhawster i reoli ei gyllideb refeniw dros y ddwy flwyddyn ariannol ddiwethaf ac nid oes gennym sicrwydd eto bod ei drefniadau ar gyfer cynllunio ariannol ac ailddylunio gwasanaeth yn ddigon cadarn i sicrhau £16 miliwn o arbedion dros y pedair blynedd nesaf

76 Roedd 2012-13 yn flwyddyn anodd i'r Cyngor yn ariannol; dangosodd yr alldro refeniw ar gyfer y flwyddyn ddiffyg o £1.452 miliwn yn y gyllideb. Digwyddodd y gorwariant mwyaf sylweddol yn y gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymunedol, yn benodol mewn perthynas â lleoliadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae'r Cyngor wedi cydnabod bod y maes hwn o'r gyllideb yn anwadal a gall amrywio'n sylweddol o ganlyniad i benderfyniadau a wneir i ddiogelu plant sydd mewn perygl.

77 Roedd gan y Cyngor gyfanswm o £5.8 miliwn o Gronfeydd Cyffredinol ar 31 Mawrth 2012. Lleihaodd y diffyg yn y gyllideb ar gyfer 2012-13 y cronfeydd hynny 25 y cant. Adroddodd Swyddog A151 y Cyngor i'r Cabinet ar 31 Gorffennaf gan ddweud ei bod yn amlwg bod gorwariant o'r maint hwn yn anghynaliadwy.

78 Wrth bennu'r gyllideb ar gyfer 2013-14 yn wreiddiol, roedd y Cyngor yn rhagweld diffyg o £3.404 miliwn. Yna gwnaethpwyd gwaith i nodi meysydd lle y gellid gwneud arbedion ac, ym mis Mawrth 2013, roedd modd i'r Cyngor gyflwyno cyllideb gytbwys ar gyfer 2013-14 o fewn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nodwyd y prif arbedion i

bontio'r diffyg yn y gyllideb mewn prosiectau effeithlonrwydd arfaethedig a gostyngiadau mewn cyllidebau Cyfarwyddiaethau, a chytunwyd arnynt drwy ymgynghori â Phenaethiaid Gwasanaethau.

79 Fodd bynnag, erbyn mis Gorffennaf 2013, roedd adroddiad monitro refeniw chwarter cyntaf y Cyngor yn dangos diffyg rhagamcanol o £2.5 miliwn yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn. Nodwyd mesurau i fynd i'r afael â'r diffyg hwn, gan gynnwys arbedion untro ac ailddyrannu cronfeydd a oedd wedi'u clustnodi. Ym mis Hydref 2013 adroddodd y swyddog A151 ar gyfer yr ail chwarter fod diffyg rhagamcanol sylweddol o £1.495 miliwn yn dal i gael ei ragweld yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn er gwaethaf y camau a gymerwyd ac y bydd y diffyg rhagamcanol hwn yn lleihau ymhellach y cronfeydd rhagamcanol fel ar 31 Mawrth 2014 a hynny'n sylweddol. Hyd yn oed gan ganiatáu ar gyfer y posibilrwydd o ddefnyddio cronfeydd ychwanegol wedi'u clustnodi gwerth £1 miliwn wedi'u hailddyrannu, bydd angen £495,000 yn ychwanegol o Gronfeydd Cyffredinol. Dywedodd y swyddog nad oedd y rhagolwg ariannol hwn yn gynaliadwy a'i bod yn amlwg bod yn rhaid rhoi pob mesur posibl ar waith ar unwaith i fynd i'r afael â'r diffyg rhagamcanol yn y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

80 Dengys y sefyllfa ddiweddaraf a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Chwefror 2014 (trydydd chwarter) fod diffyg sylweddol o £0.9 miliwn yn parhau i gael ei ragamcanu ar gyfer y flwyddyn 2013-14. Nid yw'r gostyngiad pellach hwn yn y gorwariant rhagamcanol wedi cael ei gyflawni gan fesurau a gymerwyd gan Gyfarwyddiaethau'r Cyngor i leihau gwariant. Yn wir, mae'n amlwg fod Cyfarwyddiaethau'n wynebu rhagor o bwysau ar eu cyllideb yn ychwanegol at y rhai yn sgil y mesurau lleihau gwariant cychwynnol. Yn hytrach, gellir ei briodoli i gynnwys £400,000 o grant a glustnodwyd yn flaenorol y mae'r swyddog A151 yn ystyried ei fod ar gael i'w ryddhau er mwyn gwrthbwyso'r diffyg rhagamcanol yn y gyllideb.

81 Nid yw'r alldro terfynol yn erbyn cyllideb Refeniw 2013-14 ar gael eto. Os bydd hyn yn ddiffyg alldro o £0.9 miliwn yn unol â'r rhagamcan diweddaraf, yna bydd y Cyngor yn gallu ariannu hyn drwy ddefnyddio Cronfeydd a Glustnodwyd wedi'u hailddyrannu yn unol â'r bwriad. Fodd bynnag, os bydd unrhyw ddiffyg yn y gyllideb yn fwy na £0.9 miliwn, bydd gofyn defnyddio rhagor o'r Cronfeydd Cyffredinol ac ni all y Cyngor fforddio gwneud hyn.

82 Gan edrych i'r dyfodol, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf oherwydd y lleihad yn y cyllid a'r cynnydd yn y galw am rai gwasanaethau. Ym mis Chwefror 2014, amlygodd diwygiadau i ddiffygion rhacamcanol yn y gyllideb a adroddwyd i'r Cabinet fod y Cyngor yn wynebu diffyg cronnol o £16.2 miliwn dros y cyfnod pedair blynedd 2014-15 i 2017/18. Yn seiliedig ar y diffyg a ragwelir ar gyfer 2013-14, bydd cronfeydd cyffredinol Cronfa'r Cyngor yn lleihau i £4.39 miliwn ar 31 Mawrth 2014 ac maent yn amlwg yn annigonol i ddarparu rhwyd ddiogelwch ar gyfer y diffygion rhagamcanol ar gyfer y cyfnod hyd 2017-18.

83 Cymeradwyodd y Cyngor gyllideb wedi'i mantoli ar gyfer 2014-15 ar 26 Chwefror 2014. Yn ei adroddiad i'r Cyngor nododd y Swyddog A151: 'General Reserves of £4.39 million is considered adequate but it must be recognised that a further budget overspend of the magnitude reported for 2013-14 (and requiring financing from General Reserves) is unsustainable as it will result in a dangerously low General Reserves balance.' Mae cyllideb 2014-15 yn cynnwys gostyngiadau net o £6.641 miliwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, a bydd yn amlwg yn her i'r Cyngor o gofio ei berfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol.

84 Mae'r Cyngor yn parhau i gasglu a gwerthuso gwybodaeth i'w helpu i nodi sut y gall fynd i'r afael â diffygion arfaethedig, gan adeiladu ar y gwaith a wnaeth i ddatblygu ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig. Blaenoriaetha ei wasanaethau i lywio'r gwaith o ddyrannu adnoddau mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys penderfynu a yw gwasanaethau'n wasanaethau statudol ynteu dewisol, drwy adolygu pa wasanaethau sy'n hanfodol i gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a thrwy nodi pwysau na ellir eu hosgoi ar wasanaethau y mae angen darparu adnoddau ar eu cyfer. Mae gwasanaethau hefyd wedi cael y gorchwyl o ddatblygu ystod o opsiynau at gyfer cyflawni arbedion. Defnyddia'r Cyngor y wybodaeth a gasglwyd i fodelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys peidio â darparu gwasanaethau, yn ogystal ag ystyried y goblygiadau i'r gweithlu.

85 Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Llywio Trawsnewid sy'n adrodd i Fwrdd Trawsnewid dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor. Mae'r Grŵp Llywio wedi bod yn gweithio ers rhai misoedd, a hyd yn hyn mae wedi canolbwyntio ar leihau nifer y diswyddiadau gorfodol drwy'r cynllun Ymddeol yn Gynnar o Wirfodd ac adleoli. Mae'r Cyngor yn hyderus, drwy'r trefniadau hyn, y bydd yn nodi sut y bydd angen i fodelau darparu gwasanaeth newid er mwyn cyflawni maint y gostyngiadau mewn gwariant, er enghraifft drwy:

- adolygu a moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol;
- trosglwyddo gwasanaethau hamdden i statws ymddiriedolaeth er mwyn lleihau gwariant; ac
- adolygu swyddogaethau cymorth y swyddfa gefn.

86 Rydym yn bwriadu adolygu effeithiolrwydd y trefniadau hyn ac ailedrych ar gynnydd y Cyngor o ran rheoli ei Gyllideb Refeniw ar gyfer 2014-15 fel rhan o'n Hasesiad Corfforaethol Llawn sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2014.

87 Gan gydnabod arwyddocâd yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, mae'r Cyngor yn benderfynol o sicrhau sicrwydd a mewnwelediad ychwanegol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ei gynlluniau ariannol strategol. Yn unol â hynny, mae wrthi'n trafod â Llywodraeth Cymru ar y ffordd orau y gellid darparu cymorth o'r fath.

## Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14

88 Adeg cyhoeddi Llythyrau Asesiad Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2013, roedd y Cyngor ar gam tyngedfennol yn ei hanes. Nid oedd ganddo gyfrifoldeb dros ei wasanaeth addysg mwyach ac roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi argymhelliad statudol iddo. Roedd ei berfformiad a'i allu yn gynyddol o dan y chwyddwydr ac roedd angen iddo ddangos i'r rheoleiddwyr a'r cyhoedd ei fod yn cymryd camau pendant i ymateb yn briodol. Er i'r Cyngor gydnabod ei fethiannau a dangos ymrwymiad i wella ei berfformiad a mynd i'r afael â phryderon y rheoleiddwyr, roedd capasiti cyfyngedig yn golygu ei fod yn dibynnu'n fawr ar gymorth allanol, ac roedd trefniadau newydd ar gamau cynnar o ran eu datblygiad. Roedd yn wynebu diffyg sylweddol yn ei gyllideb ac, ar y pryd, nid oedd wedi penderfynu sut y byddai'n ymdrin â hynny. O'r herwydd, nid oedd modd i ni ddod i gasgliad ynghylch a oedd y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14.

89 Yn ystod y pedwar mis dilynol rydym wedi monitro ac adolygu cynnydd y Cyngor mewn perthynas â'r materion allweddol hyn. Bellach gallwn ddod i'r casgliad fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'i ofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol 2013-14. Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd bod y Cyngor wedi gwneud y canlynol:

- Sefydlu perthynas waith effeithiol gyda'r Bwrdd Adfer sy'n dwyn y Cyngor i gyfrif yn dda. Mae hyn yn arwain at waith ag iddo fwy o ffocws, adroddiadau cliriach ac atebolrwydd sy'n fwy tryloyw.
- Dangos ei fod yn ymrwymedig i wneud y penderfyniadau anodd sydd eu hangen os am wella'r ddarpariaeth addysg a defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol.
- Mabwysiadu'n briodol ddull gweithredu corfforaethol i wella'r ffordd y mae'n cynnal hunanasesiadau ac mae'r prif weithredwr a'r arweinydd yn amlwg yn ymrwymedig i ymgorffori'r fframwaith newydd yn holl waith y Cyngor.
- Dechrau gwella'r ffordd y mae'n dwyn cyrff llywodraethu a phenaethiaid i gyfrif am berfformiad ei ysgolion a chanlyniadau addysgol disgyblion yn erbyn fframwaith clir sy'n datblygu.

- Rhoi rhaglen ar waith i wella trefniadau ei bwyllgorau craffu ac mae lefel yr her gan bwyllgorau craffu yn gwella.
- Gwneud cynnydd cyson o ran mynd i'r afael â'm hargymhelliad statudol.
- Cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ac adrodd ar berfformiad er bod y broses o'u gweithredu ar gam cynnar.
- Cryfhau ei waith cynllunio ar gyfer gwella a'i drefniadau i gefnogi gwelliannau.

90 Er nad oes gennym sicrwydd eto bod trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio ariannol ac ailddylunio gwasanaethau yn ddigon cadarn i sicrhau £16 miliwn o arbedion dros y pedair blynedd nesaf, mae wedi pennu cyllideb wedi'i mantoli ar gyfer 2014-15 ac yn gofyn am gymorth a mewnwelediad gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'i gynlluniau ariannol.

## Ni allwn eto ddod i gasgliad ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'i ofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2014-15

91 Yn seiliedig ar y dystiolaeth hyd yma, gellir gweld bod y Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol a heriau sylweddol o ran ei wasanaethau. Ymddengys fod y trefniadau y mae'r Cyngor wedi'u rhoi ar waith yn briodol ond bydd yn rhaid eu profi. Mae'r Cyngor wedi gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru o ran ei drefniadau cynllunio ariannol strategol a byddwn yn dod i gasgliad pan fyddwn wedi cynnal ein Hasesiad Corfforaethol Llawn sydd wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2014.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôlweithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Ferthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Y Cyngor

Mae’r Cyngor yn gwario tua £204 miliwn y flwyddyn (2012-13). Mae hyn yn cyfateb i tua £3,500 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £18.3 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer Merthyr Tudful oedd £1,376.09 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.7 y cant i £1,426.56 y flwyddyn ar gyfer 2012-13. Mae 93 y cant o dai Merthyr Tydfil yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae’r Cyngor yn cynnwys 33 o aelodau etholedig sy’n cynrychioli’r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a’r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 24 Llafur;
- 7 Grŵp Annibynnol;
- Un Annibynnol Merthyr, ac
- Un Plaid Annibyniaeth y DU.

Prif Weithredwr y Cyngor yw Gareth Chapman.

- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymunedol: Giovanni Isingrini
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cwsmeriaid: Gary Thomas

## Gwybodaeth arall

Aelodau’r Cynulliad dros Ferthyr Tudful a Rhymni yw Huw Lewis (Llafur).

Yr Aelodau Cynlluniad Rhanbarthol ar gyfer Dwyrain De Cymru yw:

- Mohammed Ashgar, Plaid Geidwadol Cymru
- Jocelyn Davies, Plaid Cymru
- Willam Graham, Plaid Geidwadol Cymru
- Lindsay Whittle, Plaid Cymru

Yr Aelod Seneddol dros Ferthyr Tudful a Rhymni yw Dai Havard (Llafur).

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.merthyr.gov.uk neu cysylltwch â’r Cyngor yn y Ganolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47, 8AN.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Gareth Chapman
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Castell,
Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Annwyl Mr Chapan

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 26 Medi 2012, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deilio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 23 Medi 2013.

Yn 2011/12 roedd tîm Ystadau'r Cyngor yn gweithio ar weithredu system rheoli asedau sefydlog integredig ('Technology Forge') a chododd nifer o faterion cyfrifyddu yn gysylltiedig ag eiddo o ganlyniad i'r gwaith a wnaethpwyd ar y pryd. Yn 2012/13, gweithredwyd y system yn llawn; cododd rhagor o faterion o waith ansawdd data a gynhaliwyd fel rhan o'r broses weithredu. O ganlyniad roedd angen nifer o ddiwygiadau i'r datganiadau ariannol er mwyn cydnabod nad oedd trafodion asedau wedi cael eu hadlewyrchu'n briodol mewn cyfnodau blaenorol. Yr addasiad allweddol oedd cynyddu gwerth asedau £2.898 miliwn lle nad oeddent wedi cael eu prisio na'u cydnabod ar y fantolen. Yn ogystal, roedd nifer o ailddosbarthiadau ond, o ganlyniad, mae gan y Cyngor ddata mwy cadarn bellach mewn perthynas â'i asedau.

Cwblhawyd gwerthusiad annibynnol o'r holl dir ac adeiladau fel ar 31 Mawrth 2013, i ategu gweithredu'r system rheoli asedau newydd. Mae'r rheolwyr wedi nodi, o 2013/14 ymlaen, y bydd y Cyngor yn symud i raglen dreigl 5 mlynedd o brisiadau ffurfiol.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- Diddymodd Gweinidog Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru gyfrifoldeb y Cyngor dros addysg yn dilyn adroddiad Estyn ym mis Tachwedd 2012 a ganfu fod perfformiad gwasanaeth addysg y Cyngor a'i allu i wella yn anfoddhaol. Sefydlodd y Gweinidog Fwrdd Adfer (y Bwrdd) ym mis Mehefin 2013 i oruchwylio'r broses o weithredu cynlluniau'r Cyngor i ddatrys y materion a nodwyd.

- Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn parhau i fod yn her, ac mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr i nodi arbedion effeithlonrwydd er mwyn pontio'r bwlch cyllido a nodwyd yn ei broses cynllunio tymor canolig.

- Cafodd 29 o geisiadau grant eu hardystio gan PwC mewn perthynas â 2011/12. O blith y rheini roedd 21 yn ddiamod heb eu diwygio, roedd tri yn ddiamod gyda rhai diwygiadau i'r ffigurau terfynol, roedd angen amodi dau heb unrhyw ddiwygiad ac roedd y tri arall yn ddiamod gyda rhai diwygiadau i'r ffigurau terfynol;

- Rydym yn parhau i allu dibynnu ar waith yr adran Archwiliad Mewnol.

Cadarnhaodd yr Archwilydd Penodedig fod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau yn y farn archwilio a roddwyd ar 2 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â'r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir



**Kevin Williams (PwC LLP)**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
22 Hydref 2013

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Corfforaethol 2013-14 sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.merthyr.gov.uk o dan yr adran 'Y Cyngor a Democratiaeth' Mae'r amcanion gwella fel a ganlyn:

| Canlyniadau blaenoriaethol 2012-13 | Canlyniadau blaenoriaethol 2013-17 |
|---|---|
| Mae pobl ym Merthyr Tudful yn elwa o economi gref, gynaliadwy ac amrywiol. | Mae pobl ym Merthyr Tudful yn elwa o economi cryf, cynaliadwy ac amrywiol. |
| Mae pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel, ac wedi'u cefnogi i fwynhau ansawdd bywyd iachach a gwell. | Mae pobl sy'n byw a gweithio ym Merthyr Tudful yn cael cymorth i fwynhau bywyd mwy iach o ansawdd gwell. |
| Mae gan bobl ym Merthyr Tudful y cyfle a'r uchelgais i ddysgu a datblygu eu sgiliau i fanteisio i'r eithaf ar eu potensial. | Mae pobl ym Merthyr Tudful yn cael y cyfle a'r dyhead i ddysgu a datblygu eu sgiliau hyd eithaf eu potensial. |
| Mae pobl yn mwynhau amgylchedd bywiog, deniadol a chynaliadwy, lle gallant fyw, gweithio ac ymweld ag o. | Mae pobl yn mwynhau lle bywiog, deniadol a chynaliadwy i fyw, gweithio a chwarae ynddo ac i ymweld ag ef. |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn ystod 2012-2013 ar gael yn ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13 sydd ar wefan y Cyngor yn www.merthyr.gov.uk o dan yr adran 'Y Cyngor a Democratiaeth'.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk